Byd Adar

http://www.bydadar.co.uk

## TORCYFRAITH YN ERBYN ADAR

Union ganrif yn ôl cafodd yr arfer barbaraidd o osod abwydau gwenwynig i ladd anifeiliaid ac adar ei wahardd. Yn ôl adroddiad gan yr RSPB, fodd bynnag, erys hyn yn broblem i adar ysglyfaethus Prydain.

Ar sail y canfyddiadau hyn mae'r RSPB yn galw ar y Llywodraeth i wahardd y gwenwyn - fel sydd eisoes yn yr Alban.

Cofnodwyd 128 achos o wenwyno anghyfreithlon yn 2010 ond mae'n debygol fod y gwir ffigwr yn uwch. Lladdwyd 20 cudyll coch, 30 bwncath, 2 hebog Marthin, 8 hebog, 5 eryr aur, 1 eryr cynffon wen, 1 gwalch glas.

### Dim defnydd cyfreithiol

Mae'r RSPB yn galw am ddeddf sy'n gwahardd unigolion rhag cael sylweddau gwenwynig penodol yn eu meddiant os nad oes ganddynt ddefnydd cyfreithiol iddynt. Er i'r llywodraeth wneud meddiant o wenwynau yn anghyfreithlon yn 2006, nid yw wedi eu henwi. Gwneir hynny yn yr Alban ers 2005 ac mae'r heddlu'n ei ganmol fel arf defnyddiol iawn yn yr ymgyrch yn erbyn torcyfraith bywyd gwyllt.

Dywed Richard Crompton – Prif Gwnstabl Heddlu Swydd Lincoln a llefarydd Cymdeithas y Prif Gwnstabliaid ar dorcyfraith yn erbyn bywyd gwyllt, 'Mae'r achosion o dorcyfraith yn erbyn adar ysglyfaethus yn flaenoriaeth gennym oherwydd mae'n effeithio ar gadwraeth. Rydym yn benderfynol o weld y rhai sy'n euog yn dod o flaen eu gwell.'

Dywedodd Chris Dowse – Ffermwr y Flwyddyn y *Farmers Weekly* yn 2011 a rheolwr fferm 6,000 acer yn Swydd Lincoln, 'Rydw i wrth fy modd yn gweld barcutiaid coch a boda yn hedfan dros y stâd. Ychydig ddegawdau yn ôl fyddai hynny ddim yn bosibl ac mae'n destament o'r hyn y gellir ei gyflawni pan fo pawb yn cydweithio.

Mae unrhyw un sy'n lladd adar ysglyfaethus nid yn unig yn torri'r gyfraith ond yn rhwystro eraill rhag cael y fraint o weld yr adar gogoneddus. Dylai pawb fod ar eu gwyliadwraeth rhag difetha enw da yr holl gymuned.'

Dengys adroddiad yr RSPB yn 2010 bod yr achosion o dorcyfraith yn erbyn adar ysglyfaethus a thylluanod fel a ganlyn:




